

Taflen wybodaeth am

Rhif.002

Diffyg talu

Os ydych wedi derbyn hysbysiad diffyg talu yn rhybuddio am gamau posibl yn eich erbyn dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem. Mae pethau y gallwch eu gwneud a phobl a all helpu.

Ond mae angen i chi weithredu **NAWR!**

- **Darllenwch yr hysbysiad diffyg talu'n ofalus.** Mae'n esbonio beth sydd angen i chi ei wneud, a beth allai ddigwydd os na fyddwch yn ymateb. Os nad ydych yn siŵr beth mae'n ei olygu, gofynnwch i'r benthyciwr neu gynghorydd dyledion.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau - trowch drosodd am fanylion.
- **Gall cynghorydd dyledion drafod ar eich rhan.** Gall awgrymu ffyrdd o ddelio â'r broblem a gwneud yn siŵr y caiff y dyledion pwysicaf eu talu gyntaf.
- **Efallai y gallwch ofyn i lys am fwy o amser i ad-dalu dyled** – ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys. Cadwch gopïau o lythyrau a negeseuon e-bost rhag ofn y bydd eu hangen ar y llys.

Os na wnewch rywbeth yn fuan, gall y benthyciwr gymryd camau yn eich erbyn. Er enghraifft, drwy fynnu eich bod yn talu'r arian sy'n ddyledus, neu drwy adfeddiannu nwyddau wedi'u hurbwrcasu. Os yw'r benthyciad wedi'i sicrhau yn erbyn eich cartref, gallech golli eich cartref. Gallai'r diffyg talu aros ar eich ffeil credyd am chwe blynedd, gan ei gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw hyn i gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ddyled, neu i gael manylion ble i gael cyngor o'r fath yn eich ardal chi.

Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Er mwyn cael adnoddau arian, gwybodaeth a chyngor diduedd a hawdd eu deall am ddim, ewch i www.moneyadvice.service.org.uk neu ffoniwch **0300 500 5000** er mwyn siarad â Chynghorydd Arian

Money Advice Scotland

Os ydych yn byw yn yr Alban, ffoniwch **0141 572 0237** neu ewch i www.moneyadvicescotland.org.uk i gael manylion cyswllt am gyngor ar ddyled yn eich ardal leol

Advice NI – gwasanaeth Gweithredu ar Ddyled Gogledd Iwerddon

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0800 917 4607**, anfonwch neges e-bost i debt@adviceni.net neu ewch i www.debtaction-ni.net i gael cyngor ar ddyled

AdviceUK

Mae aelod-ganolfannau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – www.adviceuk.org.uk neu ffoniwch **0300 777 0107**

Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)

I gael cyngor am ddim ar ddyled yn eich cartref, edrychwch i weld pa godau post a gwmpesir yn www.capuk.org wedyn ffoniwch **0800 328 0006**

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyled a phynciau eraill, ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn) neu ewch i www.adviceguide.org.uk

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i www.nationaldebtline.org i gael cyngor a gwybodaeth am ddyled

Elusen Ddyled StepChange

I gael cyngor ar ddyled ledled y DU ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i www.stepchange.org

Sefydliadau defnyddiol eraill

Cyngor Cyfreithiol Sifil

Gallwch gael cyngor cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Ewch i www.gov.uk/legal-aid neu ffoniwch **0345 345 4345**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu - ffoniwch **0300 123 9123** neu **0800 023 4567** neu ewch i www.financial-ombudsman.org.uk